




Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

ARCHAEOLOGY NEAR ME:

Archwilio casgliadau o adroddiadau llenyddiaeth lwyd yn ddaearyddol

Nicholas Pitt, Ymgeisydd PhD, [University of New South Wales, Sydney](#)




Yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, mae'r rheoliadau treftadaeth sydd wedi cael eu datblygu mewn sawl awdurdodaeth wedi arwain at archaeolegwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes treftadaeth yn paratoi nifer iawn o adroddiadau cydymffurfio. Mae'r llenyddiaeth lwyd hon yn anodd i hyd yn oed yr arbenigwyr ei harchwilio. Gall lleoliad

[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8^{ed} – 12^{ed} Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English.

daeryddol astudiaethau blaenorol fod yn anhysbys o hyd, yn arbennig mewn ardaloedd heb gofrestri sydd ar gael yn rhydd i'r cyhoedd.


Mae Archaeology Near Me (ANM) yn ffordd newydd o fapio adroddiadau archaeolegol a threftadaeth blaenorol o New South Wales, Awstralia, yn uniongyrchol. Mae sgriptiau Python yn cael eu defnyddio i gael gafael ar gyfeiriadau a gwybodaeth am safleoedd o fetaddata adroddiadau. Yna, defnyddir gwahanol ffynonellau cyhoeddus i ganfod lleoliad y cyfeiriadau hyn. Yna, mae'r safleoedd sy'n cael eu lleoli'n cael eu cyflwyno ar ryngwyneb map ar y we (<http://archaeology-near-me.com/>). Ar 3 Medi 2020, roedd yn cynnwys 5212 o adroddiadau treftadaeth gan brif reoleiddiwr y llywodraeth a 3865 o 'adroddiadau archaeoleg' (diffiniad bras) o amrywiaeth o ffynonellau.



Er fy mod wedi creu Archaeology Near Me oherwydd fy mod i, fel gweithiwr proffesiynol yn y maes treftadaeth, yn teimlo'n rhwystredig, rwyf wedi dod i werthfawrogi fwyfwy sut mae'n bosib i'r wybodaeth gael ei defnyddio gan y cyhoedd ym meysydd hanes ac addysg. Mae trafodaethau cynnar ag athrawon ysgolion uwchradd yn rhoi syniad ynghylch ei werth wrth gyrraedd myfyrwyr o wahanol oedran a gallu.

Fodd bynnag, mae'r hygyrchedd hwn hefyd yn golygu bod y prosiect yn wynebu heriau moesegol. Yn benodol, mae rhannau arwyddocaol o drafodaethau am dreftadaeth

Awstralia wedi cael eu beirniadu am sut mae wedi atgyfnerthu'r myth sy'n gysylltiedig â hanes gwladychwyr-trefedigaethol Awstralia. Gallai sicrhau bod adroddiadau treftadaeth ac archaeoleg ar gael yn fwy rhwydd arwain at fwy o drafodaethau am hyn, oni bai fod penderfyniadau bwriadol yn cael eu gwneud o ran sut caiff yr wybodaeth ei chyflwyno. Mae strategaethau fel sgrin Cydnabyddiaeth Gwlad a chynnwys data am dreftadaeth ddiwylliannol Brodorion nad ydynt yn sensitif ac sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwy ffordd syml rwyf wedi'u defnyddio i geisio lleihau'r gwaddol gwladychwyr-trefedigaethol sy'n gynhenid yn y casgliad o adroddiadau rwy'n gweithio gyda nhw.



Bywgraffiad

Mae Nicholas Pitt yn archaeolegydd ac yn hanesydd ac mae ganddo brofiad proffesiynol mewn rheoli treftadaeth archaeoleg anffordrol yn Sydney, Awstralia. Mae'n ymgeisydd PhD mewn hanes ym Mhrifysgol New South Wales, Sydney ar hyn o bryd, yn ystyried dryswch trefedigaethol gwladychwyr trefol yn Sydney rhwng 1820 ac 1850, gan gyfuno ffynonellau hanesyddol ac archaeolegol. Hefyd, mae ganddo ddi-ddordeb mewn GIS a'r dyniaethau digidol, ac mae'n cynnwys y rhain yn ei arferion ymchwil ehangach.